

# Prifysgol Bangor: Hysbysiad Preifatrwydd i Staff 2020/21



## 1. Rhagarweiniad

Prifysgol Bangor (PB) yw'r rheolydd data mewn perthynas â'ch gwybodaeth, fel y caiff ei diffinio yn Neddf Diogelu Data 2018 ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich hawliau, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Cynrychiolydd penodedig y Brifysgol dros ddeddfwriaeth diogelu data, a'r Swyddog Diogelu Data, yw'r:

Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio  
Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio  
Gwasanaethau Corfforaethol  
Prifysgol Bangor  
Ffordd y Coleg  
Bangor  
Gwynedd LL57 2DG

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Brifysgol yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol ac yn ei defnyddio yn ystod eich amser ym Mangor fel aelod staff. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a bod yn agored ynghylch pa wybodaeth sydd ganddi. Mae gan y Brifysgol ystod o bolisiâu a gweithdrefnau yn ymwneud â diogelu data ac maent i'w cael yma:

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/dataprotection/index.php.cy>

## 2. Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu amdanoch?

Bydd PB yn casglu gwybodaeth amdanoch drwy gydol yr amser y bydd yn ymwneud â chi fel darpar aelod staff, ac aelod staff cyfredol. Byddwn yn cadw cofnod o'r manylion y gwnaethoch eu rhoi ar eich ffurflen gais (neu gyfatebol), a dogfennau ategol y byddwn yn gofyn amdanynt fel rhan o'r broses recriwtio a dewis, manylion ychwanegol a ddarperir gan unrhyw ganolwyr a chofnodion unrhyw broses gyfweld.

Mae'r mathau o wybodaeth bersonol a brosesir yn cynnwys y canlynol, er nad yw wedi ei chyfyngu iddynt:

### **Data Ymgeiswyr**

- Yr holl ddogfennau a roddwch i ni fel rhan o'r broses gwneud cais.
- Geirdaon a dderbynnir gan y canolwyr y bu i chi eu henwi fel rhan o'r broses gwneud cais.
- Cofnodion o'r broses recriwtio a dewis, yn cynnwys unrhyw gofnodion yn dilyn y broses gyfweld. Fel y nodir yn ein Hysbysiad Casglu Data Recriwtio a Dewis, bydd y

wybodaeth a roddwch i ni'n cael ei chadw'n gyfrinachol, a chaiff ei rhannu'n gwbl unol â gofynion y polisi recriwtio a dewis, ac ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei datgelu i drydydd partion heb eich caniatâd chi ymlaen llaw, ac eithrio pan fod angen cadarnhau gwybodaeth ffeithiol a roddwyd gennych chi.

- Caiff data personol ymgeiswyr aflwyddiannus eu dileu ar ôl cyfnod o 12 mis oni roddir gwybod yn wahanol neu bod eu hangen at ddibenion deddfwriaethol. Os byddwch yn llwyddiannus, cedwir y wybodaeth a'i throsglwyddo i'ch cofnod staff cyfrinachol.

### **Data Staff**

- Eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, unrhyw rifau ffôn a roddwch i ni, dyddiad geni a rhywedd.
- Manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth, yn cynnwys dyddiadau dechrau a gorffen gyda chyflogwyr blaenorol ac yn y Brifysgol.
- Gwybodaeth am gyflog, cynnydd mewn cyflog a gwobrau, gwybodaeth am bensiwn.
- Manylion eich cyfrif banc a'ch rhif yswiriant gwladol.
- Gwybodaeth am eich cenedligrwydd, a dogfennau'n cadarnhau hawl i weithio yn y DU.
- Eich manylion cyswllt mewn argyfwng os byddwch yn eu darparu.
- Unrhyw geisiadau am ddyrchafiad/ail-raddio yr ydych wedi eu cyflwyno, neu y cyflwynodd eich rheolwr ar eich rhan, ynghyd ag unrhyw eirdaon a dderbyniwyd fel rhan o'r broses hon.
- Manylion cyfnodau o absenoldeb a gymerwyd gennych chi, yn cynnwys gwyliau\*, absenoldeb salwch, absenoldeb teulu, absenoldeb arbennig ac absenoldeb astudio\*.
- Gwybodaeth a gesglir at ddibenion monitro cyfle cyfartal (e.e. tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol, gwybodaeth anabled). Bydd unrhyw adroddiadau/ffurflenni a gynhyrchir gan ddefnyddio'r math hwn o ddata yn ddi-enw.
- Manylion unrhyw drefniadau disgyblu neu gwyno yr ydych wedi bod yn ymwneud â nhw, yn cynnwys unrhyw rybuddion a roddir i chi a gohebiaeth gysylltiedig.
- Eich cofnod Adolygu Datblygiad Proffesiynol (PDR)\*.
- Eich cofnod datblygu staff – manylion hyfforddiant rydych chi wedi cymryd rhan ynddo, a gofynion datblygiad cytundebol (e.e. PGCert HE, cyrsiau Cymraeg)
- Eich cofnod iechyd galwedigaethol cyfrinachol.
- Ar gyfer rhai swyddi, gellir prosesu gwybodaeth am euogfarnau troseddol yn y gorffennol fel y nodir yn ein Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gwybodaeth yn ymwneud ag atal a chanfod troseddau a diogelwch a staff a myfyrwyr, gan gynnwys, er nad yw wedi'i chyfyngu i hynny, recordiadau teledu cylch cyfyng a data yn ymwneud â thorri rheoliadau'r Brifysgol.

\* Cedwir cofnodion gwyliau, absenoldeb astudio ac adolygu datblygiad proffesiynol yn eich Ysgol neu Adran

Gall peth o'r data hyn gael eu categorio fel data categorïau arbennig, fel y diffinnir hynny gan Ddeddf Diogelu Data 2018.

### 3. Sut caiff eich gwybodaeth ei defnyddio?

Nid yw'n bosibl nodi pob diben y bydd PB yn defnyddio eich gwybodaeth ar ei gyfer ond, yn y rhan fwyaf o achosion, mae eich gwybodaeth bersonol naill ai'n angenrheidiol i gyflawni ein rhwymedigaethau cytundebol gyda chi, neu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol e.e. Cymhwyster i Weithio yn y Deyrnas Unedig, Gwybodaeth Amser Real (RTI), Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Efallai y bydd yn ofynnol hefyd er mwyn i ni gyflawni tasgau sydd eu hangen er lles y cyhoedd

e.e. Adrodd i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (a nodir yn eich cytundeb cyflogaeth) ac, ar gyfer swyddi penodol, gwneud gwiriadau cofnodion troseddol - gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut mae gwybodaeth yn debygol o gael ei defnyddio:

- Asesu eich addasrwydd ar gyfer swydd.
- Gwneud gwiriadau hawl i weithio cyn i chi gael eich cyflogi ac, ar gyfer dinasyddion fisa, gwiriadau parhad cyflogaeth.
- Gweinyddu'r gyflogres, pensiwn a swyddogaethau cyflogaeth safonol eraill.
- Sicrhau gweinyddiad effeithiol busnes ac adnoddau dynol.
- Cyflwyno cyfleusterau, gwasanaethau a buddion i chi, a lle bo'n briodol, monitro eich defnydd yn unol â pholisïau'r Brifysgol e.e. Defnydd Derbyniol o Wasanaethau TG.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda chi drwy'r post, e-bost neu ar y ffôn.
- Cefnogi eich gofynion datblygiad, hyfforddiant, diogelwch a lles.
- Cyflawni a monitro ein gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- Cael cyngor lechyd Galwedigaethol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'n dyletswyddau mewn cysylltiad â chyflyrau iechyd unigolion, ac yn cyflawni ein rhwymedigaethau dan gyfraith iechyd a diogelwch.
- Sicrhau eich bod yn cael tâl, neu fuddion eraill, y mae gennych hawl iddynt.
- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'n cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth iechyd cyhoeddus.
- Lle bo'n berthnasol, i fonitro, gwerthuso a chefnogi eich gweithgarwch ymchwil a menter.
- I'n galluogi i gysylltu gydag eraill mewn argyfwng - Os ydych chi wedi rhoi'r wybodaeth hon i ni, rydym ni'n deall eich bod wedi gwneud hynny ar ôl cael caniatâd yr unigolyn a enwir cyn rhannu eu manylion gyda ni.
- Er mwyn casglu ystadegau a chynnal arolygon ac ymchwil at ddibenion adrodd mewnol a statudol (e.e. yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch).
- I ymateb i ofynion statudol (e.e. Asiantaeth Budd-daliadau fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992)
- Rhannu gwybodaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â hysbysu am glefydau heintus hysbysadwy.

#### 4. Pwy sy'n derbyn y wybodaeth amdanoch?

Mae'r Tîm Adnoddau Dynol, y Gyflogres a Phensiynau'n medru cael mynediad at eich data personol ac yn gyfrifol am gadw eich ffeil a'ch cofnodion personol ar y system adnoddau dynol.

Bydd gan gydweithwyr eraill, gan gynnwys eich Pennaeth Adran / Coleg / Ysgol a, lle bo'n briodol, rheolwr llinell a gweinyddwyr adrannol, Cyllid (gan gynnwys Ymchwil), Cynllunio a rhai aelodau staff yn y Gwasanaethau TG fynediad cyfyngedig at eich cofnodion fel bo'r angen i gyflawni eu dyletswyddau a'u tasgau busnes.

Lle bo angen, bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu'n fewnol rhwng adrannau gwasanaeth academiaidd a phroffesiynol ar draws y Brifysgol ac, mewn perthynas â phrosesu penodol, megis ymchwiliadau neu baneli apeliadau, staff uwch eraill y Brifysgol/aelodau'r Cyngor. Ni chaiff gwybodaeth ei datgelu i drydydd parti heb eich caniatâd, neu, oni bai ei bod yn cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith neu gytundeb.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif sefydliadau a'r amgylchiadau mwyaf cyffredin pan mae'r Brifysgol yn datgelu gwybodaeth ynglŷn â'i myfyrwyr. Lle mae hynny'n cynnwys trosglwyddiad rhyngwladol, trosglwyddir gwybodaeth yn unig os yw'n bodloni'r amodau a amlinellir yn Neddf Diogelu Data 2018.

- Darparwyr allanol buddion i staff, yn cynnwys USS a BUPAS.
- Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) - mae'n ofynnol i Brifysgol Bangor anfon peth o'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch at HESA at ddibenion dadansoddi ystadegol. Gallwch weld manylion sy'n ymwneud â phrosesu eich data personol gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yma: <https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices>
- Darpar gyllidwyr neu noddwyr ymchwil a rhai gwirioneddol. Gall hyn gynnwys darparu gwybodaeth bersonol ar gyfer Pasbort Ymchwil.
- Mae gan y Brifysgol drwydded i noddi staff ymfudol o dan Haen 2 a Haen 5 y system sy'n seiliedig ar bwytiau. Bydd y Brifysgol yn darparu data am staff ar fisas Haen 2 a Haen 5 i'r Swyddfa Gartref a'i hadrannau er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o dan ei thrwydded.
- Adrannau Llywodraeth Leol yn cynnwys yr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac Adran Fisâu a Mewnffudo'r Deyrnas Unedig.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn unol â'n cyfrifoldebau statudol.
- Unrhyw gyflogwyr cyfatebol perthnasol e.e. Ymddiriedolaeth GIG, Partneriaid Cyfnewid Gwybodaeth
- Lle rydych chi wedi rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth gydag Undebau Llafur perthnasol ac ymholwyr allanol (e.e. banc am gyfeirnod morgais, asiantaethau gosod, eich cyfreithiwr i adennill cyflog mewn hawliadau anaf).
- Asiantaethau yn y Deyrnas Unedig gyda dyletswyddau'n ymwneud ag atal a chanfod troseddau, casglu trethi neu dollau neu warchod diogelwch cenedlaethol. Dylech nodi bod dyletswydd statudol i sefydliadau addysg uwch roi sylw dyledus i'r angen i atal unigolion rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Gall hyn olygu y bydd angen i'r Brifysgol, mewn

amgylchiadau arbennig, drosglwyddo data personol i gyrff cydlynu a sefydliadau partner megis llywodraeth leol a'r heddlu. Yn ogystal, llysoedd neu Swyddfeydd Crwneriaid.

- Gall archwilwyr, cyfreithwyr, yswirwyr, ac asiantau eraill y Brifysgol fod angen mynediad at ddata personol o bryd i'w gilydd lle bo angen hynny. Bydd y penderfyniadau hyn bob amser yn cael eu gwneud fesul achos gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.
- Ar adegau a lle bo angen, cwmnïau adennill a rheoli dyledion er mwyn adennill dyled ar ran y Brifysgol, lle mae gweithdrefnau adennill dyledion mewnol wedi bod yn aflwyddiannus.
- Ar adegau, pan fo angen a lle rydych wedi rhoi caniatâd, ymarferwyr meddygol i gael cyngor ar Iechyd Galwedigaethol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau mewn perthynas â chyflyrau iechyd unigol.
- Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â hysbysu am glefydau heintus.
- Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru i gefnogi'r broses olrhain cysylltiadau o dan reoliadau Covid-19, fel bo'r angen.
- Bydd unrhyw ddatgeliadau eraill y bydd y Brifysgol yn eu gwneud yn unol â deddfwriaeth diogelu data, a bydd eich buddiannau a'ch hawliau yn cael eu hystyried yn ofalus.

Mae eich manylion cyswllt sylfaenol a manylion eich swydd i'w cael ar ein cyfeiriadur ar-lein. Ar wahân, gall Ysgolion ac Adrannau ofyn i chi ddarparu gwybodaeth arall ar gyfer eu tudalennau gwe.

Efallai y bydd disgwyl i staff sy'n gweithio mewn swyddi'n ymwneud â chwsmeriaid, neu sy'n wynebu pobl, wisgo bathodynau enw fel y bo'n briodol ac efallai, y bydd eu henwau hefyd yn cael eu harddangos ar dderbyniadau til. Mae'n bosibl y bydd enwau a ffotograffau hefyd yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau'r Adran a'r Ysgol.

## **5. Gwybodaeth bellach yn ymwneud â'ch data**

### **Eich hawliau**

Mae gennych hawl i fynediad at eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, unioni, dileu, cyfyngu a throsglwyddo'ch gwybodaeth bersonol. Os ydych wedi cydsynio i Brifysgol Bangor brosesu unrhyw ran o'ch data, yna mae gennych hawl hefyd i dynnu'r cydsyniad hwnnw'n ôl. Ewch i we-dudalennau Diogelu Data'r Brifysgol i gael gwybodaeth bellach am eich hawliau:

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/dataprotection/index.php.cy> Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol.

### **Diogelwch**

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Mae hynny'n golygu y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, a chymerir pob cam priodol i atal mynediad heb awdurdod a datgelu gwybodaeth. Dim ond aelodau staff fydd

angen mynd at rannau perthnasol eich gwybodaeth, neu eich holl wybodaeth, fydd yn cael eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd angen cyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill i gael mynediad at wybodaeth amdanoch mewn ffurf electronig, a chaiff ffeiliau papur eu cadw mewn manau diogel gyda mynediad atynt wedi'i reoli. Mae gwybodaeth bellach am y prosesau hyn i'w chael ym *Mholisi Diogelwch Gwybodaeth* y Brifysgol.

### **Cadw Gwybodaeth**

Mae'r Brifysgol yn cadw'r wybodaeth amdanoch yn unol ag amserlenni penodedig addysg uwch ar gadw gwybodaeth. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn amserlen cadw gwybodaeth y Brifysgol y gellir ei gweld yma:

<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/records-management.php.cy>

### **Cwynion**

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y proseswyd eich gwybodaeth bersonol gallwch, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os byddwch yn dal yn anfodlon mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Y Comisiynydd Gwybodaeth 2<sup>il</sup> Lawr  
Tŷ Churchill,  
Ffordd Churchill  
Caerdydd  
CF10 2HH  
Ffôn: 02920 678 400

### **Eich cyfrifoldebau**

Mae gennych gyfrifoldeb i ddiweddarau eich manylion personol. Yn ystod eich cyflogaeth mae yna nifer o amgylchiadau lle gallwch weld gwybodaeth bersonol am eraill, naill ai ym Mhrifysgol Bangor neu mewn manau eraill, fel mewn lleoliad gwaith. Disgwylir i chi drin hyn mewn modd cyfrifol a phroffesiynol ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud hyn dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn ogystal ag unrhyw foeseg proffesiynol, codau ymddygiad neu reolau a rheoliadau lleol. Os ydych chi'n cael gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol, disgwylir i chi beidio â datgelu'r wybodaeth hon i unrhyw un heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Ni ddylech chwaith geisio cael data personol pobl eraill os nad oes gennych hawl iddo. Bydd camau disgyblu yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw aelod staff y Brifysgol sy'n torri deddfwriaeth diogelu data neu ddyletswydd hyder.

Edrychwch ar *Bolisi Diogelu Data* y Brifysgol am wybodaeth bellach.

*Adolygwyd gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio  
ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21  
Medi 2020  
Cymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio 16 Hydref 2020*